Ofcom

# Bwletin Broadcast and On Demand

Rhifyn 524, 16 Mehefin 2025



## Nodyn i Ddarlledwyr – rhestr gwirio cydymffurfiaeth ar gyfer darlledwyr teledu a radio ac egwyddorion cydymffurfio ar gyfer Prif Ymrwymiadau

### Rhestr gwirio cydymffurfiaeth ar gyfer darlledwyr teledu a radio

Heddiw, rydyn ni wedi cyhoeddi rhestr wirio ddiwygiedig ar gyfer cydymffurfiaeth darlledwyr teledu a radio. Mae hon yn disodli'r rhestrau gwirio cydymffurfiaeth a oedd ar wahân yn flaenorol ar gyfer cynnwys darlledu teledu a chynnwys darlledu radio, gan gyfuno gwybodaeth ar gyfer darlledwyr teledu a radio â diweddariadau i'r cynnwys a strwythur diwygiedig.

### Egwyddorion cydymffurfio ar gyfer y Prif Ymrwymiadau

Rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi ein hegwyddorion cydymffurfio ar gyfer y Prif Ymrwymiadau fel dogfen ar wahân, ar ôl eu cyhoeddi yn y datganiad ar Radio Cymunedol: dull gweithredu ar gyfer y Prif Ymrwymiadau.

Drwy wneud hynny, rydyn ni wedi ychwanegu penawdau at y ddogfen ac wedi aildrefnu'r adran ar gymeriad y gwasanaeth er mwyn ei gwneud yn haws ei darllen. Rydyn ni hefyd wedi ychwanegu'r wybodaeth ganlynol i egluro ein sefyllfa o ran ieithoedd a lleoliad stiwdios, mewn ymateb i sylwadau a wnaed yn ystod y broses o amrywio'r drwydded i symleiddio'r Prif Ymrwymiadau:

> *"Pan gyfeirir at ieithoedd yng nghymeriad gwasanaeth gorsaf, byddem yn disgwyl i rai rhaglenni yn yr ieithoedd hynny gael eu darlledu bob wythnos. Nid yw hyn yn cyfyngu ar orsafoedd rhag darlledu cynnwys mewn ieithoedd eraill yn ychwanegol at y rheini a bennir yng nghymeriad y gwasanaeth. Yr ieithoedd a bennir yng nghymeriad y gwasanaeth ddylai barhau i fod y brif iaith/ieithoedd a ddarlledir ar yr orsaf".*

> *"Mae cael stiwdio o fewn yr ardal ddarlledu drwyddedig yn bwysig er mwyn sicrhau budd cymdeithasol. Mae cyfleusterau stiwdio yn bwysig er mwyn caniatáu i wirfoddolwyr a darpar wirfoddolwyr gael mynediad at yr orsaf, cael hyfforddiant a chymryd rhan yn y gwasanaeth, ac er mwyn sicrhau bod yr orsaf yn atebol i'w chymuned darged".*

Rydyn ni hefyd wedi egluro bod yr egwyddorion hyn yn berthnasol i wasanaethau radio cymunedol, sy’n darlledu ar AM ac FM, a gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol, sy’n darlledu ar DAB.